# Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 2. Rheoli eich sefydliad

## 2.11 Yswiriant

### Pam bod ar sefydliadau angen yswiriant?

Mae gan aelodau corff llywodraethu ddyletswydd gyffredinol i amddiffyn y sefydliad gan gynnwys ei yswirio'n ddigonol.

Bydd y swm a'r math o yswiriant y mae ar eich sefydliad ei angen yn dibynnu ar:

- Y gyfraith – mae rhai mathau o yswiriant yn orfodol.
- Y ddogfen lywodraethu – efallai ei bod yn cynnwys dyletswydd gadarnhaol i brynu yswiriant.
- Ystod a'r math o weithgareddau a gyflawnir gan eich sefydliad – e.e. yr asedau sydd yn ei feddiant neu dan ei reolaeth ac a oes ganddo staff.

### Oes rhaid i ni yswirio?

Lle bo yswiriant yn orfodol neu'n hanfodol, dylai sefydliadau gael isafswm cyfreithiol o leiaf. Mae yswiriant arall yn ddewisol ond gallent fod o fudd gan ddibynnu ar amgylchiadau'r elusen.

Gellir yswirio rhag digwyddiadau o bob math, ond gallai hynny fod yn gostus iawn i sefydliad. Felly, wrth ystyried yswiriant meddyliwch am y **gwir** risgiau y bydd y grŵp yn agored iddynt.

Mae'n werth ichi siopa o gwmpas hefyd er mwyn dod o hyd i bolisïau cyfun sy'n yswirio'r amrywiaeth o risgiau sy'n berthnasol i'ch sefydliad.

### Beth am gymalau eithrio?

Gallai'r angen am yswiriant gael ei leihau ac, mewn amgylchiadau eithriadol, ei osgoi drwy ddefnydd doeth o gymalau eithrio neu ymwrthodiadau. Gallai'r rhain ymddangos fel rhybudd ar docyn, arwydd ger y fynedfa i'r safle, yng nghorff dogfen gontract neu mewn telerau ac amodau ysgrifenedig ar wahân.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cymalau eithrio a dylid gofyn am gyngor cyfreithiol cyn ceisio eithrio atebolrwydd fel hyn. Dan ddarpariaethau Deddf Telerau Contract Annheg 1977, ni ellir eithrio atebolrwydd am achosi marwolaeth drwy esgeulustod neu anaf personol neu achosi colled neu ddifrod i rywun sy'n defnyddio nwyddau sydd wedi eu cynhyrchu neu eu dosbarthu'n esgeulus. Mae cymalau eraill mewn telerau safonol ysgrifenedig neu lle bo'r prynwr yn ddefnyddiwr yn amodol ar brawf 'rhesymoldeb'. Er enghraifft, ni fydd dweud nad yw'r sefydliad yn atebol am gyngor anghywir yn darparu amddiffyniad o reidrwydd, ac nid yw'n rhyddhau'r sefydliad o'i gyfrifoldeb i gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn gywir ac yn gyfredol.

## Pwy ddylai gael ei yswirio

Mae'n bwysig yswirio staff, aelodau'r pwyllgor rheoli, gwirfoddolwyr ac aelodau cyffredin am unrhyw atebolrwydd a allai ddod i'w rhan wrth gyflawni gwaith y sefydliad.

## Yswiriant ar gyfer prif feysydd cyfrifoldeb ymddiriedolwyr

### Yswiriant gorfodol:

- Yswiriant atebolrwydd cyflogwr – Os yw eich sefydliad yn cyflogi staff mae'r gyfraith yn nodi bod hyn yn ofynnol. Rhaid i'r yswiriant sylfaenol fod yn £5 miliwn am anaf neu glefyd a ddioddefir neu a ddelir gan weithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid arddangos y dystysgrif yn y gweithle. Dim ond y staff sy'n cael eu hyswirio, ac nid y cyhoedd.
- Yswiriant cerbydau – Os yw eich sefydliad yn defnyddio cerbyd, mae'r gyfraith yn nodi ei bod yn ofynnol i chi gael yswiriant rhag atebolrwydd i drydydd parti.

### Yswiriant dewisol:

- Salwch staff – efallai hefyd y byddwch eisiau yswiriant ar gyfer costau talu tâl salwch i weithwyr
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – yn hanfodol i elusennau sy'n berchen ar adeiladau, neu sy'n dal adeiladau, neu sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd, rhag hawliadau gan aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr) am anaf, colled neu ddifrod a achoswyd o ganlyniad i esgeulustod sefydliad. Argymhellir yswiriant sy'n werth isafswm o £5 miliwn. Mae gennych gyfrifoldeb arbennig dros wirfoddolwyr ac wrth ddelio gyda'r cwmni yswiriant dylech nodi'n glir a ydynt yn cael eu cynnwys.
- Yswiriant eiddo – argymhellir yn gryf yswirio adeilad am ei werth ailsefydlu llawn os yw elusen yn berchen ar ryddfraint ac yn gyfrifol am yr yswiriant; dylid yswirio cynnwys adeiladau â pholisi 'pob risg' sy'n cynnwys dodrefn, cyfarpar ac arian.
- Yswiriant indemniad proffesiynol – yn darparu rhag rhoi cyngor neu wasanaeth proffesiynol arall i aelodau o'r cyhoedd sy'n arwain at ddifrod, anaf neu golled i ddefnyddiwr y gwasanaeth.
- Yswiriant ffyddlondeb – yn amddiffyn rhag lladrad neu golled yn deillio o weithredoedd anonest staff neu wirfoddolwyr.
- Yswiriant indemniad ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr – yn darparu yswiriant cyfyngedig i ymddiriedolwyr rhag torymddiriedaeth. Mae angen i elusennau gael awdurdod i brynu Yswiriant Indemniad Ymddiriedolwr. Gellir ei gael gan y ddogfen lywodraethu, dan Ddeddf Elusennau 1993, a.73F (lle bo'r ymddiriedolwyr yn credu ei fod er pennaf les yr elusen) a chan y Comisiwn Elusennau lle bo gwaharddiad penodol ar ei brynu yn y ddogfen lywodraethu. Sylwer na fydd y math hwn o yswiriant yn diogelu ymddiriedolwyr sydd wedi ymddwyn yn ddiofal ac yn anonest, ond ei fod yn anghyffredin iawn pa un bynnag i ymddiriedolwyr sydd wedi ymddwyn yn ddoeth ac yn onest ddioddef colled ariannol o ganlyniad i fod yn ymddiriedolwr.

## Pwyntiau cyffredinol

- Mae'n bwysig adolygu polisïau er mwyn sicrhau bod yswiriant yn dal i fod yn ddigonol a bod y premiymau'n rhesymol.
- Mae'n werth cael aelod o'r pwyllgor rheoli i fod yn gyfrifol am yswiriant y grŵp er mwyn sicrhau nad yw'r mater yn cael ei ddiystyru
- Gall sefydliadau corfforedig drefnu yswiriant yn enw'r sefydliad. Dylai sefydliadau anghorfforedig drefnu yswiriant yn enw'r pwyllgor ond wedi ei arwyddo gan unigolyn ar ran y pwyllgor rheoli.
- Beth bynnag yw'r yswiriant bydd eithriadau mewn rhai amgylchiadau. Gwnewch yn siŵr bod yr eithriadau hyn (y print mân) wedi eu darllen a'u deall.
- Wrth drefnu yswiriant mae'n ddyletswydd ar y cynigydd i fod yn gwbl ddidwyll â'r cwmni yswiriant. Mae hyn yn golygu y gall y cwmni wrthod talu os yw'r cynigydd heb ddatgelu gwybodaeth neu wedi camliwio gwybodaeth.
- Mae'n hanfodol eich bod yn yswirio am y swm priodol. Gall yr yswiriant fod ar gyfer gwerth adnewyddu ar adeg colled neu ddifrod neu gost adnewyddu (a elwir yn aml yn 'newydd am hen'). Os nad oes gennych ddigon o yswiriant, mae rhai polisïau'n caniatáu i gwmni yswiriant beidio â thalu o gwbl.
- Cadwch restr gyfredol o eiddo, dodrefn a chyfarpar.
- Ceir canllawiau penodol ar gyfer elusennau yn llyfryn y Comisiwn Elusennau, *Charities and Insurance* (CC49).

## Yswirwyr elusennau arbenigol

Ceir rhestr isod o rai o'r yswirwyr a broceriaid elusennau arbenigol gan gynnwys y cynllun Encompass sydd wedi'i gydnabod yn genedlaethol ac yn cael ei hyrwyddo gan WCVA.

**WCVA Encompass**
Keegan & Pennykid (Insurance Brokers) Ltd
50 Queen Street
Caeredin EH2 3NS
Ffôn: 0800 731 8030
Ffacs: 0800 731 8448
www.keegan-pennykid.com

**Charity Assured**
Aon Ltd
Capitol House
1 Houndwell Place
Southampton
Hampshire SO14 1HU
Ffôn: 0845 6010796
www.charityassured.co.uk

**Charity Select**
Thomas, Carroll Group plc
Pendragon House
Crescent Road Caerphilly CF83 1XX
Ffôn: 029 2088 7733
Ffacs: 029 2085 5230
www.thomas-carroll.co.uk/brokers

**Ansvar Connect**
Ansvar Insurance Co Ltd
Ansvar House
St Leonards Road
Eastbourne
East Sussex BN21 3UR
Ffôn: 01323 737541
Ffacs: 01323 739355
www.ansvar.co.uk

**Ecclesiastical**
Community Trading Services Ltd
8/9 Upper Street
Islington
London N1 OPQ
Ffôn: 0207 226 0189
Ffacs: 0207 354 9570

**Zurich Municipal**
Community Insurance Centre
Mountbatten House
Grosvenor Square
Southampton SO15 2RP
Ffôn: 0845 600 3184
www.zurich.co.uk/Municipal

**Ladbrook**
Ladbrook
FREEPOST NEA9003
Sheffield S25 3ZZ
Ffôn: 01909 565858
Ffacs: 01909 550840
www.ladbrook.co.uk

**Endsleigh**
Endsleigh Insurances (Brokers) Ltd
Shurdington Road
Cheltenham Spa
Gloucestershire GL51 4UE
Ffôn: 01242 866929
Ffacs: 01242 866961
www.endsleigh-business.co.uk/

**Sector 3**
Royal & Sun Alliance Insurance plc
St Mark's Court
Chart Way
Horsham
West Sussex RH12 1XL
Ffôn: 0800 072 0600
www.royalsun.com/sector3

## Mwy o wybodaeth

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Ffôn: 0870 3330123
www.charitycommission.gov.uk

**Ymwadiad**
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

**Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**
*36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA*
**Elusen Gofrestredig** *1063289*

**Ffôn:** 01437 769422 info@pavs.org.uk
**Ffacs:** 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
**Wedi ei ddiweddaru:**11/07/2008

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk